

Minutes



Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned

Date: Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021

Time: 6.00 pm

Present: Councillors Bishton, Graig, Llanwern, Marshfield, Michaelstone-y-Fedw and Wentlooge

Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Pamela Tasker (Governance Officers)

1 Ymddiheuriadau

None

2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: 15 Medi 2021

Cytunwyd:

Bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 yn gofnod cywir.

3 Materion yn codi

Nododd y Cadeirydd yr ateb ysgrifenedig gan Reolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau yn nodi nad oedd unrhyw gydberthynas rhwng tipio anghyfreithlon a newidiadau i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

4 Hyfforddiant llythrennedd carbon

Cafodd y cynghorau cymuned gyflwyniad gan yr Uwch Swyddog Polisi a Phartneriaeth. Eglurwyd bod yr hyfforddiant hwn yn fenter dan Bartneriaeth Casnewydd yn Un i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth drwy Raglen Leader Dyffryn Wysg a oedd yn ffynhonnell cyllid ar gyfer y prosiect.

Prif Bwyntiau:

- Hyfforddiant llythrennedd carbon am ddim i gael ei gynnig i gynghorau cymuned yng Nghasnewydd a Sir Fynwy gan ei bod yn fenter ar y cyd rhwng y ddwy ardal hynny.
- Byddai cynghorau cymuned yn dysgu am y cysylltiad rhwng gweithgareddau dynol a'r newid yn yr hinsawdd, a byddai hynny'n rhoi'r wybodaeth iddynt gymryd camau i leihau allyriadau carbon ar lefel unigol neu ar lefel cyngor cymuned.
- Gwnaed cais i'r Gronfa Datblygu Gwledig a oedd yn llwyddiannus, ac roedd yn berthnasol i ardal LEADER Dyffryn Wysg yn cynnwys Sir Fynwy a wardiau gwledig yng Nghasnewydd gan gynnwys Llan-wern, Maerun, Graig, Caerllion a Langstone. O ran hyfforddiant cynghorau cymuned, bydd yr hyfforddiant yn cael ei ymestyn i bob un o'r 14 cyngor cymuned a bydd yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn newydd gan Cynnal Cymru.

- Mae 116 o leoedd hyfforddiant ar-lein am ddim ar gael i aelodau Cynghorau Cymuned a hyd at 90 o leoedd am ddim ar gael i aelodau o'r gymuned yn yr ardal.
- Mae Hyfforddi'r Hyfforddwr hefyd ar gael lle gall pobl a oedd wedi derbyn yr hyfforddiant hefyd fynd ymlaen i gyflwyno'r hyfforddiant eu hunain yn y dyfodol.
- Hyfforddiant i'w gynnal ar-lein rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 – Dau sesiwn ar-lein gydag awr o ddysgu hunangyfeiriedig.
- Bydd yr hyfforddiant yn rhoi gwybod i bobl am y ffeithiau a'r wyddoniaeth y tu ôl i'r newid yn yr hinsawdd, ac effaith gwahanol gamau gweithredu ac yn eu helpu i ddatblygu cynlluniau gweithredu gan ddefnyddio eu gwybodaeth. Byddai'r cwrs hefyd yn cael ei achredu gyda thystysgrif ar ôl ei gwblhau.
- 4 cyfle i gofrestru gyda chwrs ym mis Ionawr, 2 ym mis Chwefror ac 1 ym mis Mawrth 2022.

Y cam nesaf oedd ysgrifennu at glerc cod cynghorau cymuned yr wythnos nesaf i wahodd pobl i gofrestru eu diddordeb ymlaen llaw gyda'r ddolen archebu. Gall un person gofrestru ar ran ei gyngor cymuned gyda'r potensial i ymestyn hynny i fwy o bobl.

Gofynnwyd i gynghorau cymuned hefyd helpu i nodi grwpiau sy'n gofalu am adeiladau cymunedol yn eu hardal a hefyd hyrwyddo'r hyfforddiant hwn i drigolion yn eu hardal a allai fod â diddordeb.

Cwestiynau:

Gofynnodd cynrychiolydd Llanfihangel-y-fedw am y 116 o leoedd ac am y ffaith mai dim ond un cynrychiolydd cyngor cymuned o bob cyngor a all fynychu'r hyfforddiant a chadarnhaodd yr Uwch Swyddog Polisi a Phartneriaeth fod y 116 o leoedd hefyd yn cynnwys Sir Fynwy sy'n cymryd y rhan fwyaf o leoedd a'i fod hefyd ar gael i sefydliadau sy'n rhedeg adeiladau cymunedol.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun y byddai llawer o grwpiau â diddordeb ym Maerun a gofynnodd a oedd unrhyw bosteri ar gael i'w hanfon at y grwpiau hyn.

Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Polisi a Phartneriaeth y byddai'r wybodaeth yn cael ei hanfon drwy'r Swyddog Cymorth Llywodraethu at glerc cod Cyngor Cymuned yr wythnos nesaf.

Anogwyd Cynghorau Cymuned hefyd i ddilyn Partneriaeth Casnewydd yn Un ar Twitter i gael mwy o wybodaeth ac i rannu'r wybodaeth am eu cylchlythrau.

5 Cwynion cwsmeriaid - canolfan gyswllt

Mynychodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Rheolwr Cymorth Gweithrediadau i siarad â Chynghorau Cymuned am broblemau a nodwyd yn y cyfarfod blaenorol ynghylch anawsterau o ran sut y cafodd problemau eu hadrodd, problemau gyda'r ap a hefyd adroddiadau nad yw rhai cwsmeriaid yn cael galwad yn ôl.

Prif Bwyntiau:

- Eglurodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid fod gan y ganolfan gyswllt system lle mae problemau'n cael eu logio ac mai dyma'r un system y mae trigolion yn ei defnyddio i sefydlu eu cyfrifon gyda 50,000 o drigolion wedi sefydlu cyfrifon eu hunain, a bod hyn wedi'i integreiddio â'r system swyddfa gefn.
- Mae gweithredwyr y ganolfan gyswllt yn gweithredu o'r system o'r enw 'A TO Z', a oedd yn gronfa ddata wybodaeth enfawr. Pe byddech yn ffonio i roi gwybod am gasgliad gwastraff a fethwyd neu i roi gwybod am geudwll, er enghraifft, byddent yn defnyddio'r gronfa ddata honno i ateb eich galwad. Roedd y wybodaeth ar y gronfa ddata honno yn eiddo i'r gwasanaethau. Mae gwasanaethau'n rhoi gwybodaeth i dîm y gwasanaethau cwsmeriaid am sut maent am i'w galwadau gael eu trin.
- Mae'r asiant yn chwilio am geudyllau neu wastraff a fethwyd ac mae ganddo sgript i helpu gyda'r alwad hon.
- Pe bai angen logio galwad, yna byddai'n mynd i'r swyddfa gefn.
- Pan sefydlwyd 'A to Z', cytunodd y swyddfeydd cefn ar y wybodaeth i'w chadw ar y set ddata honno, cytunon nhw pa wybodaeth i'w rhoi'n ôl i'r cwsmer, yna cytunon nhw â ni gytundeb lefel gwasanaeth e.e. beth yw'r amserlen ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid.

- Nid yw'r ganolfan gyswllt yn derbyn unrhyw wybodaeth gan y gwasanaeth, ar ôl i'r alwad adael y gwasanaethau cwsmeriaid, cyfrifoldeb y swyddfa gefn oedd cysylltu â'r cwsmer.
- Pe bai'r alwad yn cael ei logio, yna byddai'n mynd i swyddfa gefn y gwasanaeth, a byddai beth bynnag a fyddai'n cael ei roi ar y cofnod hwnnw yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r cwsmer trwy e-bost.
- Pe na fyddai unrhyw beth yn cael ei fwydo yn ôl, yna byddai'n debygol nad oedd y swyddfa gefn wedi diweddarau'r cofnod.

Cwestiynau:

Gofynnodd cynrychiolydd Maerun beth oedd ystyr swyddfa gefn ac a oedd yn cyfeirio at bob adran unigol fel Cynllunio ac ati a dywedodd hefyd fod trigolion wedi dweud nad ydynt wedi derbyn unrhyw adborth o gwbl felly roedd hyn yn broblem.

Eglurodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid, pe bai cwsmer yn adrodd am geudwll, yna byddai hyn yn cael ei logio o dan enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost y cwsmer ac yn mynd drwodd i'r system Priffyrdd a fyddai'n creu swydd i'r arolygydd. Mae'r arolygydd yn ychwanegu nodyn i'w system a ddaw wedyn yn ôl at y cwsmer.

Ychwanegodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau, pe bai gan gwsmer gyfrif cwsmer cofrestredig, dylid gwirio'r cyfrif. Roedd tua 85,000 o gyfrifon cwsmer cofrestredig bellach ar draws Casnewydd. Dylai'r ceisiadau fod ym mhorthol cyfrif y cwsmer a dylai'r cwsmer allu edrych ar ei archebion. Dywedwyd efallai y dylid edrych ar y porthol cwsmeriaid ac efallai bod y gwasanaethau yn logio nodiadau mewnol yn hytrach nag i'r cwsmer. Ni fyddai e-bost yn cael ei greu ar gyfer popeth.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei fod wedi defnyddio'r cyfrif ers blynnyddoedd a'r ap ers iddo ddod allan gyntaf, ond bod yr ap yn anwadal, a'r prif fater oedd y porthol a'r unig lwybr i fynd ar ganlyn hyn oedd drwy'r Cyngor.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg mai'r prif fater oedd na chafodd unrhyw adborth ac nad oedd unrhyw nodiadau ar y porthol erioed. Roedd am leihau galwadau i'r ganolfan gyswllt, a gwnaeth annog trigolion i ddod ato gyda materion i gysylltu â'u cynghorau cymuned fel un pwynt galw. Dywedwyd ei bod yn embaras cwrdd â'r trigolyn ac nad oes gennych unrhyw beth i'w ddweud yn ôl wrth y trigolyn hwnnw a theimlwyd bod angen mwy o wybodaeth ar gynghorau cymuned.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei fod wedi derbyn dros 30 o alwadau ar ddiwrnod gwastraff yn y gorffennol lle na chasglwyd gwastraff ac nad oedd wedi cael ateb tan ddydd Gwener pan ddywedwyd wrtho y byddai'n rhaid iddo aros tan yr wythnos nesaf. Teimlai cynrychiolydd Gwynllŵg, pe dywedwyd wrtho na fyddai casgliadau gwastraff yn cael eu gwneud tan y dydd Gwener hwnnw, y gallai fod wedi trosglwyddo hyn yn ôl i drigolion a gellid symud eu gwastraff o'r stryd yn hytrach na'i adael allan am ychydig ddiwrnodau.

Cytunodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid fod problemau cyfathrebu oherwydd weithiau nid yw'r ganolfan gyswllt yn gwybod y strydoedd a fethwyd tan y diwrnod canlynol. Gellid ystyried anfon e-byst i'r ward pe byddai hynny'n helpu.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg y byddai hyn yn helpu ond mai dim ond un enghraifft oedd hi gan ei fod wedi cwblhau arolwg o'r ffordd dan sylw ac adrodd 119 o geudyllau a daeth rhywun yn ôl yn gofyn iddo a oedd hyn yn gywir gan fod cymaint.

Gofynnodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a deimlwyd y gellid codi'r mater hwn yn CMT.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod angen trafod hyn gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a chytunodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid y gellid rhoi rhywbeth at ei gilydd ar gyfer y cyfarwyddwr corfforaethol. Nodwyd hefyd ei fod y tu allan i wasanaethau'r ddinas felly mae angen mynd ymhellach gan fod y ganolfan gyswllt yn ddibynnol ar adrannau eraill.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg efallai y gallai fod cyfleuster ar gyfer tynnu sylw at bethau o ran y cynghorau cymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Forsey, wrth edrych ar yr adroddiad a gafodd ei wneud, ei fod yn dweud wedi cau, ac nad yw'n rhoi mwy o wybodaeth na hyn a oedd yn eithaf di-fudd.

Dywedd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid y dylai fod rhywbeth sy'n dweud sut roedd y mater yn mynd rhagddo ac y byddai hyn yn cael ei godi.

Gofynnodd cynrychiolydd Graig, pe bai rhywun yn cysylltu â'r ganolfan gyswllt ac nad oedd ganddo gyfrif e-bost ond cafodd gyfeirnod, sut y byddai rhywun yn cysylltu ag ef i ddweud sut y gweithredwyd ar hyn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau y gallai pobl hefyd fewngofnodi fel gwestai a pheidio â chofrestru ond na anfonwyd e-bost os oedd person yn westai neu os oedd yn ffonio'r ganolfan gyswllt, cyhyd â bod manylion cyswllt yn cael eu rhoi, dylid cysylltu â nhw.

Gofynnodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau a oedd yr ap wedi'i hyrwyddo'n fawr.

Dyweddodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod manylion cyswllt wedi eu dosbarthu i'r holl gymunedau ar bob agwedd ar adrodd a oedd yn cynnwys yr ap, sut i gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn a'r hyn y dylent ei adrodd i bwy e.e. roedd angen rhoi gwybod am wastraff mawr i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid nad oedd yr ap wedi'i hyrwyddo dros y ffôn. Os cafodd ymholiad ei e-bostio, cafodd y person hwnnw ei e-bost wedyn gyda chyfeirnod, ond cafodd yr hyperddolen ei chynnwys hefyd i adrodd problem yn y dyfodol yn y cyfeiriad isod.

Gofynnodd cynrychiolydd Graig, pan ffoniodd trigolyn, pam na ddywedwyd wrtho pe bai'n anfon e-bost, y byddai'n cael e-bost yn ôl yn awtomatig.

Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid, pan ffoniodd cwsmer, y gofynnwyd iddo'n awtomatig a oedd ganddo gyfrif a chyfeiriad e-bost i chwilio amdano gan nad oedd modd sefydlu cyfrif heb un.

Dyweddodd cynrychiolydd Graig na wnaeth hyn ddigwydd yn ei sefyllfa ef.

Dyweddodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid y byddai'n gwirio hyn gan y dylid gofyn am e-bost.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Maerun fod ganddo gyfeiriad e-bost a bod ganddo restr hir o faterion yr oedd wedi'u hadrodd ond nad oedd erioed wedi derbyn unrhyw adborth ar unrhyw un ohonynt.

Gofynnodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a oedd cynrychiolydd Maerun erioed wedi mynd yn ôl i'r porthol cwsmeriaid ac edrych ar ei geisiadau.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Maerun nad oedd wedi ond ei fod o'r farn, pe bai ei rif ffôn a'i gyfeiriad e-bost yno, y byddai'n gallu derbyn rhyw fath o adborth ar faterion.

Eglurodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau mai 'My Council Services' (MCS) a oedd y feddalwedd a ddefnyddiwyd gan Dorfaen, Trefynwy, Caerffili ac ati ac mae cwsmeriaid yn dod i arfer â defnyddio'r un ffurflenni. Roedd yr ap 'My Council Services' yn cael ei ddatblygu ac roedd staff mewnlol yn ei ddefnyddio e.e., mae swyddogion priffyrdd yn defnyddio'r un ap â'r cwsmer. Roedd porthol cwsmeriaid hefyd lle dylai popeth a wnaeth cwsmer fod ar yr ap ac maent yn adeiladu adran Treth Gyngor. Roedd y porthol gweinyddu hefyd ar gyfer staff gan gynnwys 130 o ffurflenni ac ati felly mae'n system eithaf mawr ac mae wedi bod yn cael ei datblygu ers 2018. Mae angen adborth ar MCS ac roedd cynghorau cymuned yn allweddol felly roedd ymgysylltu â nhw yn bwysig iawn, felly roedd y tîm yn gwerthfawrogi unrhyw adborth. Ar y diwedd byddai cyfeiriad e-bost ar gyfer y tîm yn cael ei roi i gynghorau cymuned fel y gellid anfon unrhyw ymholiadau ar y ffurflenni ac ati iddo.

Dyweddodd cynrychiolydd Maerun nad oedd yn gwybod bod yn rhaid i chi fod wedi cofrestru i dderbyn adborth.

Eglurodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau fod MCS yn integreiddio â llawer o systemau'r gwasanaethau, felly roedd hyn i gyd yn awtomataidd a dywedodd nad yw'r tîm efallai wedi canolbwyntio ar gael gwybodaeth yn ôl, ond mae angen gwaith ar hyn. I gynghorau cymuned, y wybodaeth wirioneddol yw'r hyn oedd ei hangen i roi adborth i drigolion.

Dyweddodd cynrychiolydd Gwynllŵg mai'r hyn a oedd yn amlwg yn ystod Covid oedd bod y berthynas rhwng y cynghorau cymuned a'r gymuned wedi tyfu. Teimlodd nad oedd am adrodd pethau drosodd a throsodd i'r Cyngor ac roedd adborth mor bwysig. Dywedodd fod yn rhaid i'r Heddlu ymwneud â mater oherwydd trosedd yrru bosibl lle gallai rhywun fod wedi cael ei gyhuddo heb unrhyw fai arno fe ond pe byddai'r wybodaeth wedi dod i law o Briffyrdd, yna gallai fod wedi cael ei bwydo yn ôl. Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei fod yn ei chael hi'n anodd gweld sut y gellid rhoi'r gwasanaeth i'r gymuned pe bai yr un peth â'r 85,000 sydd

wedi'u cofrestru ar y system. Ailadroddodd ei fod am atal nifer y galwadau a ddaeth i'r ganolfan gyswllt gan nad oedd trigolion am adrodd i Gyngor Dinas Casnewydd yn uniongyrchol mwyach.

Dywedodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau, gan ei fod yn rheoli'r system, fod angen iddo allu gydgysylltu ag adrannau'r system ac roedd angen i'w dîm ddeall yr hyn a oedd ei angen ar y Cynghorau Cymuned.

Dywedodd y Cadeirydd fod materion cyfunol yn y gymuned, mewn achosion unigol eraill yna roedd angen i drigolion ddefnyddio'r ap ac adrodd trwy'r cyfrif 'Fy Nghasnewydd'. Mae'n debyg nad oedd yn ddoeth iawn annog pobl i adrodd popeth i gynghorydd cymuned. Pe bai ymateb hawdd i'r gŵyn, yna byddai hyn yn ddelfrydol.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg, pe bai gwybodaeth yn dod yn ôl a gwybodaeth y dylai trigolion ei gwybod, gallai hyn gael ei phostio ar y grwpiau cyfryngau cymdeithasol yn lleol. Roedd trigolion yn dibynnu ar gynghorau cymuned yn fwy nawr nag erioed.

Cydnabu'r Cadeirydd fod angen anfon negeseuon cynnar allan ar faterion cyfunol, a gellid edrych ar hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Forsey ei fod wedi adrodd mater ar 17 Tachwedd 2021 ac nad oedd unrhyw beth ar y mater hwn heb unrhyw ymateb a'i fod yn dal ar agor.

Dywedodd Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid mai dyma'r broblem gan nad oedd ymateb ac achosodd alwadau mynych i'r ganolfan gyswllt. Eglurodd rheolwr y gwasanaethau cwsmeriaid ei fod am i bobl adrodd am faterion eu hunain ac yna gellid tynnu adroddiadau o'r system i ddadansoddi beth oedd y ceisiadau gwasanaeth amlaf i dargedu'r materion gyda'r gwasanaeth priodol. Pe bai achos ar agor o hyd, yna byddai angen nodyn i ddweud bod y mater yn cael ei ymchwilio.

Rhoddodd y Cynghorydd Forsey gyfeirnod o fis Tachwedd i Reolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid er mwyn iddi edrych i mewn iddo.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei fod wedi bod mewn ychydig o gyfarfodydd lle'r oedd 'fly mappers' ar yr agenda oherwydd pan adroddodd wastraff, adroddodd y peth i Fly Mapper ac yna adroddodd ef i Gyngor Dinas Casnewydd ar ei system, ond byddai'n llawer haws pe bai'n un system.

Dywedodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau ei fod yn gweithio gyda Christine, y Rheolwr Masnach a Gorfodi a'i tîm mewn perthynas â thipio anghyfreithlon sy'n defnyddio MCS i wneud eu gwaith. Eglurodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau ei fod wedi siarad â Cyfoeth Naturiol Cymru am Fly Mapper a'r system arall y maent yn uwchlwytho eu data iddi, a gallai'r tîm anfon ei ddata fel y mae Trefynwy yn ei wneud o MCS, felly roedd trafodaethau'n parhau ynglŷn â hyn.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg ei fod yn rhan o'r cynllun peilot ar Fly Mapper ar y dechrau ac roedd yn golygu bod angen adrodd data ar ddwy system gan nad yw system Cyfoeth Naturiol Cymru yn siarad â MCS.

Eglurodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau fod Cyngor Trefynwy yn darparu data o MCS mewn taenlen y gellid ei lanlwytho i Fly Mapper fel y gellid cofnodi'r alwad ar MCS, ac mae ei dimau yn rhedeg yr adroddiad yn fewnol gyda'r holl ddata Fly Mapper sydd ei angen.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cymorth Gweithrediadau y byddai'n siarad â'r Rheolwr Masnach a Gorfodi ym mis Ionawr 2022 am Fly Mapper a sut y gwnaeth y tîm eu helpu gan eu bod yn gwneud yr un peth ac nad oeddent am ddyblygu'r gwaith. Siaradwyd â Fly Mapper am ddarn o diddordeb a bydd yn cael ei ystyried, byddai un system yn ddelfrydol.

6 Amseroedd ymateb gan swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd

Dywedodd cynrychiolydd Graig fod yr eitem hon ar yr agenda yn dilyn yr hyn y soniwyd amdano o'r blaen ac roedd ganddo lawer o enghreifftiau lle'r oedd wedi e-bostio swyddogion yn y Cyngor ac nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb. Addawyd iddo y byddai uwch swyddogion yn dod yn ôl ato, ac ni chafodd ateb.

Dywedodd cynrychiolydd Graig ei fod wedi cyfarfod ddeg mlynedd yn ôl gyda swyddogion cyngor y ddinas ynglŷn ag arwydd cyflymder rhwng Rhiw'r Perrai a The Friendly Fox. Roedd cyfarfodydd lle cytunwyd i'r arwydd gael ei symud a fyddai'n costio £350 i'r cyngor cymuned ac ni fyddai'n cael ei wneud nes bod arian yn cael ei dalu ymlaen llaw. Dywedodd

cynrychiolydd Graig ei fod wedi cyfarfod â gwasanaethau nad oeddent yn deall pam y byddai'r cyngor cymuned yn cael cais am daliad, ond nid oedd ymateb o hyd ynglŷn â'r mater hwn.

Ailadroddodd y Cadeirydd fod angen i'r cynghorau cymuned ddod drwy'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Cymorth Llywodraethu os nad oeddent wedi derbyn ymateb gan mai nhw oedd y pwynt cyswllt canolog fel y nodwyd yn y Siarter.

Dywedodd cynrychiolydd Graig fod rhai o'r problemau yn faterion iechyd a diogelwch a oedd yn ddifrifol ac angen cael sylw yn syth ym mis Gorffennaf 2021. Dywedodd y Cadeirydd pe na bai ymateb yn cael ei dderbyn, yna gellid dod â'r materion at y Swyddog Cymorth Llywodraethu a'r Swyddog Monitro i'w huwchgyfeirio pe bai angen.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Graig at lythyr a anfonwyd at y Swyddog Monitro ym mis Ionawr 2019 gan Gyngor Cymuned Graig ynghylch mater lle nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei anfon at Aelod Cabinet ym mis Mehefin. Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael sylw ond ar hyn o bryd nid dyma'r fforwm i drafod hyn.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Cyngor wedi trafod y mater hwn eto, ac y byddai'n cael ei symud ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r gwasanaethau cwsmeriaid yn delio â'r eitem agenda'n cael ei thrafod a chwynion unigol. Fel cyngor cymuned yn codi materion roedd angen anfon hyn i'r gwasanaeth.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun, ar fater cyfathrebu, ei fod wedi holi a oedd gan Gyngor Casnewydd fewnwyd y gallai'r cynghorau cymuned gael mynediad ati.

Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd yn briodol rhoi rhifau swyddogion ac ati, yn enwedig swyddogion iau ac ni fyddai'n helpu'r cynghorau cymuned gan nad oeddent yn cael eu trin yn wahanol i gynghorwyr y ddinas. Gellid rhoi manylion cyswllt uwch reolwyr a gellid cysylltu â'u rheolwyr gwasanaeth hefyd.

Nododd y Cadeirydd y gallai'r cynghorau cymuned dderbyn manylion Penaethiaid Gwasanaeth, ond dim ond os yw'n hollol angenrheidiol y dylid cysylltu â nhw. Pe na bai'r cyngor cymuned yn adnabod y gwasanaeth dan sylw, gallai fynd drwy'r Swyddog Cymorth Llywodraethu.

7 **Unrhyw Fater Arall**

Eglurodd cynrychiolydd Maerun fod cyfarfod wedi bod gyda Matthew Sharpe, Rheolwr Datblygu ac Adfywio a Neil Gunther, Uwch Swyddog Gorfodi Cynllunio a gynhaliwyd yr wythnos hon ac a oedd yn werth chweil iawn ac roedd y swyddogion yn gymwynasgar iawn. Gofynnodd cynrychiolydd Graig a oedd Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau Covid ar logi neuaddau cymunedol gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn amwys iawn. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oeddem yn cynghori ar hyn am y rheswm hwnnw gan gyfeirio pobl yn lle hynny at ganllawiau Llywodraeth Cymru gan mai hi oedd yn gyfrifol am ddarparu'r canllawiau. Fodd bynnag, gallai Cyngor Dinas Casnewydd helpu gydag asesiadau risg.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod cyfyngiad ar ei neuadd a bod gan neuaddau eraill gynulladau bach, felly mae'r neuadd yn gosod eu canllawiau ei hun.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Graig y caniatwyd i ddsbarthiadau karate barhau ond na chaniatwyd partïon plant gan eu bod yn anodd eu monitro.

Dywedodd y Cadeirydd, ar lefel 0, mai'r trefnwyr a rheolwyr y safle a oedd yn gyfrifol am benderfynu.

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod ei neuadd wedi penderfynu cadw tracio ac olrhain er nad oedd yn ofyniad cyfreithiol mwyach.

8 **dyddiad y cyfarfod nesaf**

24 Mawrth 2022 am 6pm.

9 **Gweddarllediad o'r Cyfarfod**

[Cyfarfod Cyswllt gyda Chynghorau Cymuned. 24 Mawrth 2022 - YouTube](#)

The meeting terminated at Time Not Specified